



Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/00046/26

Ruth Galzzard – Cadeirydd Dros Dro
Helen Thomas – Prif Weithredwr
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

12 Chwefror 2026

Annwyl Ruth a Helen

Mae'r llythyr hwn yn dilyn Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 29 Ionawr 2026. Diolch ichi am fod yn bresennol yn y cyfarfod, ac am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn hwnnw yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Gallwch weld recordiad o'r cyfarfod yn [Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#).

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu fy nadansoddiad i o'r sefyllfa ar sail y cyfarfod, a byddwn yn parhau i'w hadolygu yn ein cyfarfodydd rheolaidd.

Croesewais eich gonestrwydd am y cynnydd a'r heriau fel ei gilydd. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod angen blaengynllunio cryfach, uwchgyfeirio risgiau ar gam cynharach a mynegiant llawer cliriach o fuddion a gwerth y system. Mae'r rhain yn faterion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld camau'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym i fynd i'r afael â nhw. Rwyf wedi nodi rhai materion penodol:

- **Ap GIG Cymru** – Mae angen cynnyrch sy'n fwy integredig, sy'n gweithio'n ddi-dor ac sy'n ddibynadwy yn gyffredinol ar y cyhoedd cyn y gellir disgrifio hwn fel y prif ddrws ffrynt digidol i Gymru. Mynegwyd pryderon ynghylch natur dameidiog y data, y gwahaniaeth mewn argaeledd ar draws Cymru, a'r diffyg llwybr critigol diffiniedig a fyddai'n golygu, yn hytrach na bod yn ddefnyddiol, fod yr ap yn dod yn adnodd hanfodol i ddinasyddion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethoch gydnabod y pryderon hyn ac ymrwymo i ehangu'r swyddogaethau, gwella'r gallu i ryngweithredu, cryfhau dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a datblygu mesurau perfformiad cliriach. Bydd angen cyflymu'r datblygiadau hyn os ydym am fod yn hyderus o ddarparu cysondeb o ran gwerth i ddinasyddion ym mhob rhan o Gymru.

- **Cyflwyno rhaglenni cenedlaethol** – Trafodwyd yn fanwl, yng nghyd-destun rhaglenni cenedlaethol allweddol, yr oedi a brofir a'r ffaith nad yw risgiau ond yn cael eu nodi ar gamau hwyr yn y broses. Cydnabuochoch yr heriau wrth gyflwyno rhaglenni mawr, gan gynnwys yr oedi o ran diagnosteg a systemau eraill, a thrafodwyd mesurau i wella camau i nodi risgiau yn gynnar, meithrin hyder ymhlith y rhanddeiliaid a rheoli rhaglenni mewn modd ystwyth. Cydnabuochoch fod tuedd optimistiaeth, perfformiad annigonol o ran darganfod yn gynnar, cyfyngiadau cyflenwyr a chymhlethdodau systemau etifeddiaeth i gyd wedi cyfrannu at faterion a ddaw i'r amlwg yn hwyr, a bod dulliau diwygiedig yn awr yn cael eu mabwysiadu.

Disgrifiwyd gennych ymdrechion i feithrin hyder ymhlith byrddau ieuchyd, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd gan gynnwys meithrin perchnogaeth a rennir, gwella gwelededd statws y rhaglen, a blaenoriaethu darganfod cynnar a chynllunio realistig i reoli disgwyliadau a lleihau materion annisgwyl ar y funud olaf.

- **Nodi risgiau** – Rwy'n croesawu'r newid mewn dull a ddisgrifiwyd gennych tuag at strwythurau rhaglenni mwy ystwyth, cerrig milltir cliriach, cylchoedd profi amlach a'r cynnydd yng nghyfranogiad prif weithredwyr mewn penderfyniadau a rennir. Mae'r rhain yn gamau cadarnhaol, ond maent wedi bod yn yr arfaeth ers amser bellach, a rhaid ichi symud tuag at fabwysiadu'r dull hwn ar unwaith. Mae'n ddisgwyliad clir gennyf fod yn rhaid i lechyd a Gofal Digidol Cymru dynnu sylw Llywodraeth Cymru yn llawer cynharach pan fydd risgiau yn bygwth y cyflawni, gan osgoi'r patrwm o hysbysu'n hwyr sy'n tanseilio hyder yn y system ac sy'n tarfu ar drefniadau cynllunio gweithredol ar draws Cymru.

Mae'n amlwg bod cryn ffordd gan y sefydliad i fynd eto cyn iddo allu mesur yn gyson yr adenillion o fuddsoddi, rhoi mynegiant o'r buddion a wireddwyd ledled Cymru neu ddangos y cyflawnir gwelliannau mesuradwy i ddinasyddion a chlinigwyr sy'n cyfateb i raddfa'r buddsoddiad mewn digidol. Rydych yn credu bod gennych well dealltwriaeth o wir gost yr oedi wrth gyflenwi rhaglenni ac mae adolygiadau gateway a dadansoddiadau thematig wedi amlygu materion sy'n digwydd yn rheolaidd, yn enwedig gwaith darganfod yn gynnar sy'n annigonol.

- **Metrigau gwell** – O ystyried y pwysau ariannol presennol, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am fframwaith buddion llawer cryfach gyda metrigau tryloyw, canlyniadau ariannol ac anariannol, a chymeradwyaeth o'r system ar draws y byrddau ieuchyd. Rydych wedi cydnabod y bwlch hwn ac wedi ymrwymo i gryfhau'r gwaith hwn yn sylweddol.
- **Seiber a gwydnwch** – Archwiliwyd eich sefyllfa seiber a'r cyd-destun gwydnwch cenedlaethol ehangach. Mae rôl y bwrdd i arwain ar aeddfedrwydd seiber ar draws y system yn hanfodol, a gwnaethoch roi sicrwydd am y Ganolfan

Gweithrediadau Diogelwch, yr Uned Seiberwydnwch a'r system fonitro genedlaethol. Cydnabuoeh hefyd yr angen am fwrdd llywodraethiant cenedlaethol a fydd yn gosod y safonau seiber gofynnol, a phwysigrwydd sicrhau cysondeb o ran y gydymffurfiaeth â'r rhain ar draws y byrddau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r maes hwn barhau i gael sylw brys ac mae'n ystyried ei fod yn sylfaenol i ddyfodol gofal iechyd digidol.


- **Deallusrwydd Artiffisial** – Mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar draws GIG Cymru, yn aml ar lefelau lleol. Amlygwyd gennych fod gwaith ar y gweill i ddatblygu dull cenedlaethol o lywodraethu deallusrwydd artiffisial a'i bod yn ofynnol cael safonau a threfniadau goruchwyliaeth ar waith ar draws y system gyfan i'w ddefnyddio'n ddiogel.
- **Adnodd Data Cenedlaethol/pensaerniaeth** – Pwysleisiodd y bwrdd fod gwireddu gwerth llawn yr Adnodd Data Cenedlaethol yn ddibynnol ar fod y byrddau iechyd yn gwella ansawdd y data, bodloni'r safonau data a chyflwyno cyfraniadau data i'r storfa yn gyflymach. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyfeiriad hwn ac yn disgwyl i lechyd a Gofal Digidol Cymru barhau i gymhwyso arweinyddiaeth gadarn i sicrhau bod pob sefydliad yn chwarae ei ran.

Ystyriwyd yn y cyfarfod y newid sefydliadol sylweddol sydd ar waith yn lechyd a Gofal Digidol Cymru, gan gynnwys newid i fodel gweithredu dan arweiniad y gwasanaeth, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, symud tuag at gylchoedd gwelliant parhaus a datblygu timau cynnyrch amlddisgyblaethol. Cydnabuoeh fod oedi, ailbroffilio a'r pwysau yn sgil rhaglenni etifeddiaeth weithiau wedi lleihau hyder ar draws y system, a nodwyd gennych sut y bydd y model gweithredu newydd yn helpu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Diolch ichi am gymryd rhan mor weithredol yn y cyfarfod. I symud ymlaen, mae'n ofynnol i lechyd a Gofal Digidol Cymru gyrraedd pwynt lle:

- Mae Ap GIG Cymru yn darparu profiad dibynadwy, cyffredinol i bawb yng Nghymru.
- Mae'r sefydliad yn mireinio ei ffyrdd o weithio, yn wyneb y galw cynyddol a'r cyfleoedd technolegol sy'n ehangu'n gyflym ac yn cryfhau'r gallu i gyflawni fel bod rhaglenni'r dyfodol yn osgoi'r heriau a brofwyd hyd yma.
- Mae'r newidiadau a gynlluniwyd o ran llywodraethiant a diwylliant yn cael eu cyflymu i gefnogi sefydliad mwy hyderus, ymatebol a gwarantedig.

Yn gywir



Jeremy Miles AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care